

Gwrandawriad Mater Penodol 3 Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr ar Safle'r Is-orsaf a Materion Cysylltiedig – Pwyntiau Gweithredu

8 Rhagfyr 2022

I'w gweithredu ar neu erbyn Terfyn Amser 4 (30 Ionawr 2023)

Cyfeirir at	Cam gweithredu
Yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS)	Trawsgrifiad Mae PINS yn nodi'r mater yn ymwneud â'r trawsgrifiad a godwyd gan Mr Davies a Llywodraeth Cymru a bydd yn adolygu'r mater ac yn ychwanegu cafeat at y disgrifiad o'r trawsgrifiad ar dudalen we'r prosiect.
Cyngor Sir Ddinbych (DCC)	Cynlluniau Amlinellol Dylai DCC ystyried p'un a yw cynlluniau rheoli amlinellol wedi'u datblygu'n ddigonol mewn perthynas â gwaith cyn-dechrau.
Yr Ymgeisydd	Dogfen Egwyddorion Dylunio Os derbynnir sylwadau ynglŷn â'r Ddogfen Egwyddorion Dylunio, bydd yr Ymgeisydd yn ystyried y rhain. Bydd yr Ymgeisydd hefyd yn ystyried cynnwys fframwaith ar gyfer ymgysylltiad lleol posibl yn y ddogfen. Yn ogystal, amlinellu mwy o fanylion ynglŷn â sut bydd y panel dylunio'n gweithio, sut bydd meddyliau'n cael eu hadrodd yn ôl ac yn cael eu gweithredu, ac ati.
Yr Ymgeisydd	Dogfen Egwyddorion Dylunio Rhoi ystyriaeth bellach i'r defnydd posibl o liw sy'n adlewyrchu'r amgylchedd lleol ar gyfer yr adeiladau a'r strwythurau arfaethedig yn y ddogfen.
Yr Ymgeisydd	Mr Davies Ymateb yn ysgrifenedig i'r sylwadau a wnaed gan Mr Davies yn ystod Gwrandawriad Mater Penodol 3.
Yr Ymgeisydd	Cyfaddilad Adeiladu Dros Dro (TCC) Adolygu p'un a yw manylion y swyddfa a'r cyfleusterau lles dros dro yn y TCC wedi'u sicrhau yn y Ddogfen Egwyddorion Dylunio a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO).
Yr Ymgeisydd	Cynnal a Chadw Tymor Hwy Adolygu sut mae'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol (oLEMP) wedi cael ei ddrafftio o ran cynnal a chadw tymor hwy.
Yr Ymgeisydd	Plannu Ymlaen Llaw Ystyried plannu ymlaen llaw yn ardal de-ddwyreiniol a de-orllewinol y safle yn rhan o adolygiad o'r oLEMP.
Yr Ymgeisydd	Cynllun Gwaith Diwygiedig Dylai cynllun gwaith diwygiedig gael ei gyflwyno sy'n dangos Gwaith Rhif 29 yn glir ar ddalen 10 y Cynllun Gwaith.

Yr Ymgeisydd	Gofyniad 7 y dDCO Adolygu Gofyniad 7(2)(a) mewn perthynas â ph'un a oes angen cynnwys uchderoedd mwyaf adeiladau ar gyfer yr opsiwn Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio ag Aer (AIS) arfaethedig, fel y gwnaed ar gyfer yr opsiwn Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio â Nwy (GIS).
Yr Ymgeisydd	Gofyniad 8 y dDCO Adolygu sut mae Gofyniad 8 wedi'i ddrafftio i sicrhau eglurder o ran pa waith tirweddu y mae'r Gofyniad yn ymwneud ag ef. Diweddarau Gofyniad 8, os oes angen.
Yr Ymgeisydd	Gofyniad 9 y dDCO Diwygio geiriad Gofyniad 9 i gyfeirio at gynllun ac nid cynlluniau . Rhoi ystyriaeth bellach i ymestyn y cyfnod ar gyfer unrhyw blannu cyfnewid.
Yr Ymgeisydd	Gofyniad 17 y dDCO Dylid egluro diben a graddau Gofyniad 17.
Yr Ymgeisydd	Yr Is-orsaf a Thir Amaethyddol Dylid adolygu Tabl 8 yr Aseiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) mewn perthynas â thir amaethyddol.
Yr Ymgeisydd	Ffotogyfosodiad VP1 Ar hyn o bryd, mae Ffotogyfosodiad VP1 yn darlunio'r un meintiau platfform ar gyfer yr opsiynau GIS ac AIS arfaethedig. Dylid adolygu'r ffotogyfosodiad a chadarnhau p'un a oes angen unrhyw ddiwygiadau.
Yr Ymgeisydd	Ffotogyfosodiad VP3 Adolygu'r posibilrwydd o ddarparu mwy o fanylion ynglŷn â goleuadau yn y lleoliad hwn.
Yr Ymgeisydd	Ymateb i ExQ1.10.25 yn Nherfyn Amser 1 Egluro ymhellach yr ymateb a roddwyd i ExQ1.10.25 [REP1-007].
Yr Ymgeisydd	Gofynion Ffensys Is-orsaf y Grid Cenedlaethol Cadarnhau p'un a yw gofynion ffensys is-orsaf y Grid Cenedlaethol yn cynnwys ystyriaethau lliw.
Yr Ymgeisydd	Cyfarfod â Mr a Mrs Evans o Faenol Broper Cysylltu â Mr Bibby ynglŷn â chyfarfod(ydd) sydd i'w cynnal gyda Mr a Mrs Evans o Faenol Broper.
Yr Ymgeisydd	Sgrinio Rhoi ystyriaeth bellach i rywogaethau conifferaidd ar gyfer sgrinio ychwanegol o'r gogledd rhwng yr is-orsaf arfaethedig a Faenol Broper.
Yr Ymgeisydd	Ymddygiad Tylluanod Gwynion Darparu ymateb ysgrifenedig mewn perthynas ag ymddygiad tylluanod gwynion ger is-orsafoedd.
Yr Ymgeisydd	Cyn-dechrau, Adeiladu a Rhaglen Egluro'r dull rhaglennu yn safle'r is-orsaf arfaethedig ar gyfer gwaith cyn-dechrau, fel gwaith archaeolegol ac ymchwiliadau tir, a darparu manylion ynglŷn â'r TCC ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnwys paratoi/clirio'r safle.

Yr Ymgeisydd	Effeithiau Cyn-adeiladu Cadarnhau sut byddai Parti â Buddiant yn gallu ystyried effeithiau cyn-adeiladu o'r adrannau adeiladu perthnasol ym mhenodau'r Datganiad Amgylcheddol.
Yr Ymgeisydd	Gosodiad Dangosol y Cyfadeilad Adeiladu Ystyried a oes angen llain glustogi a/neu fesurau amddiffynnol wrth y ffin â Gwarchodfa Natur Glascoed.
Yr Ymgeisydd	Cynllun Rheoli Pridd amlinellol (oSMP) Adolygu a diweddarau'r oSMP mewn perthynas â champau cloddwaith ac uwchbridd.